



AROLWG BLYNYDDOL 2004-05

CYNNWYS

Yn yr Arolwg Blynyddol hwn ceir detholiad o uchafbwyntiau o blith gweithgareddau'r Brifysgol o dan y penawdau canlynol:

Datblygiadau o buys yn PCB4

Rhagoriaeth mewn Dysgu6

Ymchwil Arloesol10

Chwarae ein Rhan yn y Gymuned14

Uchafbwyntiau 2004 - 200518

Golygwyd gan
Elinor Elis-Williams,
Y Swyddfa Materion Allanol,
Prifysgol Cymru, Bangor
Gwynedd LL57 2DG
Tel: 01248 383298
press@bangor.ac.uk

Dyluniwyd gan
Mel Parry Design, 07810 161614

Lluniau gan
Elinor Elis-Williams, Martin Roberts, Tegwyn Roberts



Arolwg Blynyddol 2004 - 2005

Gair gan yr IS-GANGHELLOR



"...ystyriwyd Bangor y brifysgol orau yng ngwledydd Prydain am ei gofal a'i chymorth i fyfyrwyr."

"Gyda pheth petruster, mae'n rhaid dweud, y mae rhywun yn dod at ei Arolwg Blynyddol llawn cyntaf fel Is-Ganghellor, ond mae'n dda gennyf ddweud ei fod hefyd gydag ymdeimlad o hyder a balchder yn llwyddiannau'r Brifysgol a'i huchelgais.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi canolbwyntio ar y pethau hynny sy'n bwysig i ni ym Mangor: ein henw da academaidd am ragoriaeth mewn addysgu a dysgu; ein staff a'n myfyrwyr; ein cysylltiadau â'r gymuned ehangach a'r economi.

Mae ein myfyrwyr yn ganolog i'n cenhadaeth a gwyh oedd deall mewn arolwg o 50,000 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf a gyhoeddwyd gan *The Times Higher Education Supplement* fod Bangor yn cael ei hystyried y brifysgol orau yng ngwledydd Prydain am ei gofal a'i chymorth i fyfyrwyr. Dangosodd ein harolwg myfyrwyr ein hunain bod 86% o'n myfyrwyr yn 'fodlon' neu'n 'fodlon iawn' gydag ansawdd profiad Bangor i fyfyrwyr ac, yn yr Arolwg Cenedlaethol cyntaf ar Fodddhad Myfyrwyr, cafodd Bangor ganlyniadau rhagorol.


Yn ystod y flwyddyn canolbwyntiwyd o'r newydd ar ymchwil ragorol o safon ryngwladol wrth i'r Brifysgol ymdrechu i wella ei safle hyd yn oed ymhellach yn yr Ymarfer Asesu Ymchwil yn 2008, a datblygu strategaeth dymor-hwy o ymrwymiad digyfaddawd i ragoriaeth mewn ymchwil.

Hefyd yn ystod y flwyddyn ailwampwyd fframwaith rheoli'r Brifysgol yn llwyr ar ôl ystyriaeth ofalus ac ymgynghori eang. Erbyn hyn mae gennym drefn lawer mwy cryno ac effeithiol, gyda llinellau cyfrifoldeb clir sy'n rhoi swyddogaeth ganolog i benaethiaid ysgolion ac adrannau. Mae hyn wedi rhyddhau amser sylweddol iawn a oedd yn cael ei dreulio'n flaenorol ar bwyllgorau.

I bob pwrpas mae hyn yn weledigaeth newydd a llwybr newydd i'r Brifysgol ac rwyf wedi ei amlinellu ar wahanol achlysuron yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at Gynllun Strategol newydd sy'n mynegi'n glir ein strategaethau ar gyfer dyfodol l lwyddiannus.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd yr Eisteddfod Genedlaethol, a gynhaliwyd ar garreg ein drws. Fel prif ddarparwr Addysg Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg (ym Mangor y mae hanner yr holl fyfyrwyr sy'n astudio yn Gymraeg yng Nghymru) roeddem yn hynod falch o wneud cyfraniad sylweddol i'r Eisteddfod eleni.

Mae Addysg Uwch yn yr unfed ganrif ar hugain yn faes cystadleuol a llawn her, ond mae Bangor yn awr mewn sefyllfa i wynebu'r dyfodol gyda hyder ac egni. Rwy'n gobeithio y gwelwch ddigon o dystiolaeth o hynny yn yr Arolwg Blynyddol hwn."



Yr Athro Merfyn Jones

Tachwedd 2005

DATBLYGIADAU

o bwys yn PCB



Adeilad Brigantia

Canolfan newydd Ymchwil Seicolegol

Mae gorffen Adeilad Brigantia'r **Ysgol Seicoleg** wedi galluogi'r Ysgol i wireddu ei breuddwyd o gael **Canolfan Niwrowyddoniaeth Glinigol a Gwybyddol**. Mae'r Ganolfan yn cynnwys cyfres o labordai niwrowyddoniaeth wybyddol newydd, yn cynnwys cyfleusterau delweddu'r ymennydd, a thimau o safon ryngwladol sy'n ymchwilio i brosesau'r ymennydd sy'n sail i ymwybyddiaeth ddynol ac ymddygiad mewn iechyd a salwch. Mae'r ymchwil yn rhoi gwell dealltwriaeth o anhwylder ar yr ymennydd, megis strôc, anafiadau pen, afiechyd Parkinson, afiechyd Alzheimer a sgitsoffrenia. Yn yr adeilad gorffenedig ceir hefyd staff allweddol o'r **Ganolfan Ymchwil Meddygaeth a Gofal, Ysgol Glinigol Gogledd Cymru** ac **Adran Iechyd Cyhoeddus Gogledd Cymru**, yn ogystal ag aelodau eraill o'r Ysgol Seicoleg.

Cydweithredu

Arweiniodd trafodaethau ar gydweithredu â sefydliadau eraill at ddau gais o bwys am arian o Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**. Roedd y rhain yn ymwneud â phartneriaeth ymchwil mewn sawl maes â **Phrifysgol Cymru, Aberystwyth** a Sefydliad Niwrowyddoniaeth Wybyddol Cymru arfaethedig (gyda phrifysgolion **Caerdydd** ac **Abertawe**).

Graddau

Yn Ebrill gwnaeth y Brifysgol gais i'r Cyfrin Gyngor am Bwerau Dyfarnu Graddau. Bydd hyn yn arwain at gyfnod maith o asesu ac archwilio'r Brifysgol gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd AU.

Grantiau a ddyfarnwyd

Roedd cyfanswm y grantiau a chontractau ymchwil a ddyfarnwyd i staff yn 2004/05 dros £13 miliwn. Dyfarnwyd £3 miliwn yn ychwanegol mewn grantiau a chontractau am wasanaethau eraill a ddarparwyd gan y Brifysgol.

...dechrau ar raglen adeiladu gwerth rhai miliynau

Canolbwynt i'r Amgylchedd

Mae gwaith paratoi wedi dechrau ar ganolfan o ragoriaeth newydd ar gyfer gwyddor yr amgylchedd. Mae **Canolfan yr Amgylchedd Cymru** yn broiect ar y cyd rhwng **Canolfan Ecolleg a Hydroleg Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol** a'r Brifysgol.

Bydd y Ganolfan, a fydd mewn labordy newydd pwrpasol gwerth £7M ar gampws y Brifysgol, yn galluogi i staff CEH a'r Brifysgol gydweithio'n agosach a bod yn ganolbwynt ar gyfer ymchwil a hyfforddiant yn y maes yng Nghymru. Bydd y ganolfan newydd yn dod â chryfderau presennol y ddau sefydliad at ei gilydd a'u datblygu ymhellach. Ei nod yw rhoi cyfleoedd newydd ar gyfer ymchwil mewn gwyddorau tir, dŵr croyw a môr er mwyn datblygu ffyrdd newydd o reoli'r tir a'r môr mewn modd cynaladwy. Bydd y gwyddonwyr yn manteisio trwy gael y cyfleusterau diweddaraf mewn adeilad nodedig a fydd yn ganolbwynt i ymchwil ym maes yr amgylchedd yng Nghymru.

Datblygiad mewnol

Sefydlodd y Brifysgol **Gronfa Ddatblygu** newydd a chytunodd i gymryd cyfrifoldeb uniongyrchol dros godi arian.



Datblygiad o'r safon uchaf mewn Rheolaeth

Mae'r Brifysgol wedi derbyn £14M mewn cyllid drwy Amcan Un yr UE, **Awdurdod Datblygu Cymru** a **Chyngor Gwynedd**, i greu Canolfan Datblygu Rheolaeth yn yr Ysgol Busnes a Datblygiad Rhanbarthol. Bydd cyfleusterau o'r safon uchaf yn y Ganolfan a bydd yn chwarae rhan bwysig yn adfywiad economaidd gogledd Cymru. Mae'r Athro Peter Barrar, cyn Ddirprwy Gyfarwyddwr Ysgol Fusnes Manceinion, wedi cael ei ddenu i arwain y datblygiad cyffrous hwn.

*Argraff arlunydd o Ganolfan yr
Amgylchedd Cymru*

Rhagoriaeth mewn DYSGU



Profi galw am Y Gyfraith

Cafwyd wyth a deugain o fyfyrwyr yn y garfan gyntaf i astudio'r Gyfraith ym Mangor. Roedd y Brifysgol yn hynod falch gyda'r ymateb – sy'n dangos yn sicr bod galw am yr amrywiaeth o raddau'r Gyfraith a ddysgir yng ngogledd Cymru - rhai ohonynt yn cynnwys cyfuniadau pur arloesol.

Mae **Ysgol newydd Y Gyfraith** yn Gymreig ac Ewropeaidd ei natur. Mae dros hanner y staff yn siarad Cymraeg a chynigir tiwtora personol yn Gymraeg neu Saesneg. Dewisodd unarddeg o fyfyrwyr gael tiwtorialau cyfrwng Cymraeg, a phan fydd tair blynedd y cwrs yn llawn bydd mwy o fyfyrwyr yn astudio'r Gyfraith yn Gymraeg ym Mangor nag mewn unrhyw sefydliad addysg uwch arall yng Nghymru. Gorffennodd y flwyddyn gyntaf gyffrous gyda lansio gradd newydd Y Gyfraith a Chymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r datblygiadau hyn yn galluogi'r Brifysgol i gyflenwi'r galw cynyddol am ymgynghorwyr cyfreithiol dwyieithog cymwys. Mae cyfleoedd gyrfa yn y maes hwn yn ehangu law yn llaw â datblygiad y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae gwedd ryngwladol i'r Ysgol hefyd gan y dysgir Cyfraith Ewropeaidd a chyfuniadau gradd gydag ieithoedd modern.

Academi i hybu dysgu

Mae'r Brifysgol wedi bod yn arloesol i gydnabod rhagoriaeth mewn dysgu a chynorthwyo myfyrwyr trwy ddyfarnu Cymrodoriaethau Dysgu. Ers sefydlu'r cynllun yn 1996, mae 29 o Gymrodyr Dysgu wedi cael eu creu, a hynny o amrywiaeth eang o ddisgyblaethau academiaidd.

Ar ôl cael eu cydnabod gan eu cydweithwyr a'u myfyrwyr fel rhai sy'n rhoi gwasanaeth dysgu a chymorth rhagorol, ac arloesol yn aml, i fyfyrwyr, mae Cymrodyr Dysgu'n grŵp gwerthfawr o fewn y Brifysgol. Mae **Academi o Gymrodyr Dysgu** wedi cael ei chreu er mwyn defnyddio'r gronfa hon o arbenigedd i hyrwyddo strategaethau'r Brifysgol a gwella ansawdd dysgu a chymorth i fyfyrwyr. Bydd yr Academi hon yn rhoi cyfle i drafod a lledaenu ymarfer da mewn addysgu, dysgu a chymorth i fyfyrwyr. Hefyd bydd yn cyfrannu at agenda addysgu a dysgu'r Brifysgol trwy ymateb i faterion fel arloesi mewn addysgu, dysgu trwy ddefnyddio TG, a strategaethau cynorthwyo myfyrwyr.

...rhoi addysg y mae ar fyfyrwyr ei hangen, gartref a thramor

Addysg ar gyfer coedwigaeth drofannol gynladwy

Mae coed a nwyddau coedwig yn eithriadol bwysig mewn gwledydd trofannol ac isdrofannol. Maent yn cynnal dros 1 biliwn o bobl dlawd mewn ardaloedd gwledig, tra bo rhwng un a dau biliwn yn dibynnu ar goed am danwydd. Yn amlach na pheidio mae adnoddau coedwig yn cael eu defnyddio mewn ffordd anghynladwy sy'n achosi ôl-ffeithiau difrifol i hinsawdd ac economi'r byd. Yr unig obaith i newid y duedd hon yw trwy roi addysg i reolwyr coedwigoedd. Rhoddir pwys cynyddol ar addysg o'r fath erbyn hyn, gan gyfuno agweddau 'traddodiadol' ar fioleg, ecoleg a thechnoleg, gydag agweddau economaidd-gymdeithasol, cytundebau masnach ac ymwybyddiaeth o'r dylanwadau gwleidyddol cryf ar y ffordd y rheolir coedwigoedd trofannol. Mae gradd MSc newydd mewn Coedwigaeth Drofannol Gynladwy yn dod ag arbenigwyr Ewropeaidd yn y maes at ei gilydd yn un o raglenni Erasmus Mundus y Comisiwn Ewropeaidd.



Mae'r **Ysgol Gwyddorau Amaeth a Choedwigaeth** yn un o gonsortiw m o bum prifysgol sy'n rhannu eu harbenigedd i greu'r cwrs MSc hwn. Yn y flwyddyn gyntaf bydd myfyrwyr yn astudio ym Mangor, Copenhagen neu Dresden, a byddant yn treulio'r ail flwyddyn yn un o'r pedwar sefydliad arall yn Nenmarc, Yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal. Mae'r sefydliadau hyn yn arwain y maes yn Ewrop o ran ymchwil ac addysg mewn coedwigaeth drofannol, a bydd eu hamrywiol sgiliau'n paratoi myfyrwyr o'r UE, a thu hwnt, ar gyfer y sialensiau enfawr sy'n wynebu coedwigaeth drofannol ar hyn o bryd.

Gwaith merched yw bel coed tân fel rheol, fel yn Nuyrain Nepal yn yr acbos hwn. Mae cynhyrchu coed mewn ffordd gynladwy yn lleibau datgoedwigo ac yn rhyddbau merched o'r caledwaith hwn.

"Yr unig obaith i newid y duedd hon yw trwy roi addysg i reolwyr coedwigoedd."

Rhagoriaeth mewn DYSGU





Jennie Holloway, Cyngborwr
Lles Myfyrwyr Rhyngwladol,
yn sgwrsio â myfyrwyr

Deng mlynedd o gefnogaeth gan y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr

O ddechreuadau bychain, pan ddaeth ychydig adrannau a oedd yn cynnig gwasanaethau i fyfyrwyr at ei gilydd, mae'r **Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr** wedi tyfu'n wasanaeth cynghori cynhwysfawr sy'n rhoi cymorth a chefnogaeth i fyfyrwyr, a gwasanaeth cynghori ac ymgynghori i staff.

*Cymrodryr Dysgu eleni
Mr Cynrig Hughes (Addysg),
Dr Mibela Erjavec (Seicoleg),
a Dr Sally Sambrook (Ysgol Astudiaethau
Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Iechyd)*



Gyda'r twf yn nifer myfyrwyr o wahanol gefndiroedd, mae'r Ganolfan wedi datblygu amrywiaeth eang o wasanaethau, megis yr Uned Cefnogaeth Ariannol, sy'n cynorthwyo myfyrwyr i gael y cymorth ariannol y mae ganddynt hawl iddo. Hefyd mae'n rhoi cyngor ar drin arian a bob blwyddyn mae'n dosbarthu cronfeydd caledi ac addysgedau gwerth dros hanner miliwn o bunnoedd. Yn y Ganolfan hefyd ceir timau i gynorthwyo'r Anabl; darpariaeth gynghori broffesiynol i fyfyrwyr a Gwasanaethau Lles i Fyfyrwyr Rhyngwladol. Mae'r rhain i gyd yn cyfrannu at Strategaethau'r Brifysgol ar Ehangu Mynediad a Dal Gafael ar Fyfyrwyr.

Mae gan y Ganolfan, sydd yn adeilad Undeb y Myfyrwyr, gysylltiadau agos ag Undeb y Myfyrwyr ac â gwasanaethau cynghori ac eiriol y sefydliad hwnnw. Yn ogystal â chynorthwyo myfyrwyr, mae gan y Gwasanaethau Myfyrwyr swyddogaeth ehangach hefyd o fewn y Brifysgol. Mae'n rhoi gwybodaeth i diwtoriaid personol; cynnig sesiynau datblygu staff ar bynciau arbenigol; a rhoi cyngor ar drefniadau lles y Brifysgol a'u gweithredu.

Mae gan y Brifysgol enw da haeddiannol am ei darpariaeth gymorth i fyfyrwyr, ac mae'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr yn chwarae rhan allweddol yn hyn o beth.

...Bangor ar y brig mewn arolwg myfyrwyr

Cymorth i ymestyn dysgu cyfrwng Cymraeg

Mae ymrwymiad y Brifysgol i gynyddu cyrsiau a chyfleoedd addysg uwch sy'n galluogi myfyrwyr i helaethu eu sgiliau yn y Gymraeg wedi cael ei hybu trwy dderbyn dwy Gymrodoriaeth Ddysgu newydd gan **Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru**. Mae'r Cymrodoriaethau'n galluogi'r Brifysgol i ymestyn dysgu cyfrwng Cymraeg ymhellach fyth trwy gynyddu amrywiaeth y cyrsiau sydd ar gael a nifer y darlithwyr a all ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Y ddau Gymrawd newydd yw Dafydd Tudur, yn yr **Adran Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol** a Dr Guto Pryderi Puw yn yr **Ysgol Cerddoriaeth**. Er bod gan y ddwy adran draddodiad cryf o ddysgu trwy'r Gymraeg, mae'r Cymrodoriaethau'n galluogi'r Brifysgol i ganolbwyntio ar ymestyn a diweddarau cyrsiau.



Dr Guto Pryderi Puw

Dafydd Tudur



Cheryl Horsley, myfyrwraig Ieithoedd Modern, y tu allan i'r farchnad bysgod enwog yn Hamburg

Mae Dr Guto Pryderi Puw yn datblygu dau fodiwl newydd cyffrous mewn Cyfansoddi Cerddoriaeth a Cerddoriaeth a'r We, a hynny mewn ymateb i'r diddordeb a ddangoswyd gan fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr fel ei gilydd. Dylai hyn hybu twf y diwydiant cerddoriaeth sy'n defnyddio cyfryngau newydd yn Nghymru.

Mae Dafydd Tudur yn datblygu dau fodiwl newydd, ar Biwritaniaeth yng Nghymru a Christnogaeth a Chenedligrwydd Cymreig. Dysgir y rhain i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf, yr ail a'r drydedd.

Bydd nifer o ysgolheigion cyfrwng Cymraeg yn ymuno â'r ddau gymrawd hyn a bydd eu grantiau'n eu galluogi i gwblhau eu hastudiaethau doethurol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf a chyfrannu at y gwaith dysgu yn eu hadrannau.

Cwsmeriaid bodlon

Roedd canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol cyntaf i Fyfyrwyr, a gynhaliwyd yn y gwanwyn, yn dangos bod myfyrwyr ym Mangor yn fodlon i raddau helaeth gyda'u profiad yn y Brifysgol.

Yr **Adran Ieithoedd Modern** ym Mangor gafodd y sgôr uchaf o ran boddhad drwedd a thro, gan sgorio 4.7 allan o 5 posibl. Dim ond pedair adran arall (ym mhob disgyblaeth) a gafodd sgôr cyn uchred yn holl brifysgolion Prydain. Fe wnaeth myfyrwyr y 'Celfyddydau Perfformiadol' ym Mangor (y mwyafrif ohonynt yn fyfyrwyr **Cerddoriaeth**) hefyd gofnodi'r pwyntiau boddhad uchaf ar gyfer eu cyrsiau.

Mae'r Adran Ieithoedd Modern yn cynnig un o'r amrywiaethau ehangaf a mwyaf hyblyg o gyrsiau gradd ym Mhrydain mewn Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg. Un fyfyrwraig sy'n ffynnu o dan eu harweiniad a'u hyfforddiant yw Cheryl Horsley a enillodd Ysgoloriaeth Yr Athro Carl Lofmark am ei chynnydd eithriadol mewn Almaeneg.

Mae Cheryl yn astudio tair iaith ar gyfer ei gradd: Almaeneg a Sbaeneg gyda Ffrangeg. Yn ogystal â mwynhau'r cyfleoeddau dysgu rhagorol ym Mangor, mae Cheryl yn cael cyfle i drochi ei hun yn niwylliant ieithyddol ardaloedd tair iaith yn ystod ei chwrs gradd. Yn dilyn semester yn Hamburg, Yr Almaen, bu Cheryl yn astudio yn Salamanca yn Sbaen am bum mis.

YMCHWIL

Arloesol



Y dyfodol i bysgod

Mae llawer o'n rhywogaethau pysgod mwyaf cyffredin yn cael eu bygwth gan newid hinsawdd, gor-bysgota, a gweithgareddau sy'n difetha eu cynefinoedd, megis pysgota â rhwydi ar hyd gwaelod y môr. Yn wir, pysgod dŵr croyw yw'r grŵp o fertebratau sydd mewn perygl fwyaf yn Ewrop, ac mae penfras Môr y Gogledd wedi'i ddynodi'n ffurfiol yn rhywogaeth dan fygythiad.

Mae'r **Ysgol Gwyddorau Biolegol** wedi cryfhau ei gallu i ddatblygu sail wyddonol rheoli pysgodfeydd trwy benodi Gary Carvalho yn Athro Ecoleg Foleciwlaidd a Dr Martin Taylor yn Gymrawd Ymchwil mewn Geneteg a Chadwraeth Pysgodfeydd. Grŵp yr Athro Carvalho oedd ymysg y cyntaf i ddangos y gall gor-bysgota leihau amrywioldeb genetig mewn poblogaethau pysgod sy'n cael eu gor-ddefnyddio. Felly, er bod miliynau lawer o bysgod ar ôl o hyd yn ein cefnforoedd, mae'r dirywiad yn eu 'hiechyd genetig' yn golygu y gall poblogaethau pysgod yn y dyfodol fod yn llai abl i oroesi newidiadau amgylcheddol. Yr Ysgol yn awr yw un o'r ychydig ganolfannau Ewropeaidd sy'n canolbwyntio ar warchod amrywioldeb genetig mewn pysgod, gyda'r nod o leihau i'r eithaf effeithiau niweidiol newidiadau i'r amgylchedd. Oherwydd y cryfderau hyn mewn gwyddor integredig pysgodfeydd ac amgylcheddol, mae **Asiantaeth yr Amgylchedd** wedi dynodi PCB yn un o'r prifysgolion y mae eisiau datblygu cysylltiadau agos â hi, yn cynnwys lleoli Dr Nigel Milner, Pennaeth ei Gwyddor Pysgodfeydd, o fewn yr Ysgol Gwyddorau Biolegol.

“Yr Ysgol yn awr yw un o'r ychydig ganolfannau yn Ewrop sy'n canolbwyntio ar ddiogelu amrywiaeth genetig pysgod”

...mewn Prifysgol â phuwyslais ar ymchwil

Ymchwil i iaith bob dydd

t'isio mynd â'r carrier bags?: mae'n hopeless: dwi'n supportio Cymru:

Dyma'r math o bethau y gall rhywun eu clywed mewn iaith lafar Gymraeg bob dydd. Ond pa broses sy'n digwydd yma mewn gwirionedd?

Mae symud yn ôl a blaen rhwng dwy iaith o fewn yr un sgwrs yn ddigwyddiad cyffredin mewn sgwrsio bob dydd mewn cymunedau dwyieithog neu amlieithog. Gelwir hyn yn 'gyfnewid cod' gan ysgolheigion ieithyddiaeth. Mae astudio'r ffenomen hon yn iaith lafar pobl ddwyieithog Gymraeg a Saesneg yn thema gwaith ymchwil o bwys yn **Adran Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg y Brifysgol**.

Roedd un project a gynhaliwyd y llynedd yn rhoi prawf ar fodel damcaniaethol neilltuol o 'gyfnewid cod'. I'r diben hwn fe wnaeth tîm y project drawsgrifio a dadansoddi data a recordiwyd o sgysiau a rhaglenni radio anffurfiol. Arweiniwyd y project 'Agweddau strwythurol ar gyfnewid cod Cymraeg-Saesneg' gan Yr Athro Margaret Deuchar, ac fe'i cyllidwyd gan yr **Academi Brydeinig**. Bydd y gwaith hwn yn ehangu dros y pum mlynedd nesaf o ganlyniad i gyllid ymchwil o £350,000 a ddaw drwy **Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau**. Bydd y project newydd nid yn unig yn rhoi prawf ar amryw o fodelau disgrifiadol sy'n cystadlu â'i gilydd, ond bydd hefyd yn edrych ar y berthynas rhwng cyfnewid cod a ffactorau cymdeithasol.

Ymestyn a gafael

Pe bai ymestyn am bethau a gafael ynddynt mor syml ag y mae'n ymddangos byddai robotiaid yn gallu gwneud llawer o'n gwaith tŷ yn ein lle. Ond mae'r weithred o ymestyn a gafael a wnawn gymaint o weithiau bob dydd yn cynnwys nifer o brosesau cymhleth yn yr ymennydd mewn gwirionedd.

Mae niwrowyddonwyr yn **Ysgol Seicoleg** enwog y Brifysgol wedi ymestyn ein dealltwriaeth o'r prosesau hyn. Cyhoeddwyd eu canlyniadau yn rhifyn Awst o *Current Biology*, cyfnodolyn gwyddonol rhyngwladol a gyhoeddir yn America.

Mae'n ymddangos tra bod un rhan o'r ymennydd yn dehongli'r hyn rydym yn ei weld, bod rhan arall yn cael ei hysgogi pan ydym yn gweld rhywbeth a all arwain at weithred. Er enghraifft, os ydym yn gweld cwpan, mae un rhan o'n hymennydd yn ein galluogi i adnabod y gwrthrych, tra bo proses 'sbarduno' mewn rhan arall yn ein paratoi i ymestyn am y gwrthrych a gafael ynddo.

Mae'r tîm ym Mangor wedi cadarnhau'r ail broses hon yn yr ymennydd gan ddangos y gall fod o gymorth i dynnu ein hymwybyddiaeth ymwybodol at wrthrych – yn arbennig mewn rhai achosion lle mae niwed i'r ymennydd wedi effeithio ar brosesu gweledol.



“Mae niwrowyddonwyr yn Ysgol Seicoleg enwog y Brifysgol wedi ymestyn ein dealltwriaeth o'r prosesau gafael.”

YMCHWIL

Arloesol

Yn datblu lansio Tir Newydd gwelir (cbwith-dde) Yr Athro Gwyn Thomas, Mrs Eryl Nikopoulos, Mrs Luned Meredith (merched y diwedd ar Alun Llywelyn-Williams) a'r Athro Gerwyn Williams. Caiff ysgrifeniadau'r Athro Gwyn Thomas ac Alun Llywelyn-Williams eu hystyried yn y gyfrol



Ymchwil yn taflu goleuni ar Gymru

Ymysg cyhoeddiadau gan staff y Brifysgol roedd dwy gyfrol sy'n cynnwys ymchwil newydd a gwerthfawr ym maes diwylliant a hanes Cymru.

The Acts of the Welsh Rulers 1120-

1283, dyma ffrwyth dros ddeng mlynedd o ymchwil gan Yr Athro Huw Pryce o'r Adran Hanes a Hanes Cymru. Am y tro cyntaf mewn un gyfrol ceir casgliad cynhwysfawr o destunau wedi eu golygu a chrynodebau o tua 450 o ddogfennau. Mae'r rhain yn cynnwys siarteri, llythyrau a chytundebau, sy'n taflu goleuni ar y tywysogion Cymreig, eu perthynas â choron Lloegr, â llys Ffrainc ac â'r Babaeth. Mae'r dogfennau, sy'n awr wedi eu cyfieithu i Saesneg ac ar gael i bawb, yn rhoi golwg dreiddgar ar ymwybyddiaeth y tywysogion Cymreig o'u hunaniaeth a'u hymateb i bynciau llosg eu dydd.

Tir Newydd: Agweddau ar Llenyddiaeth Gymraeg a'r Ail Ryfel

Byd, mae'r gwaith hwn gan yr Athro Gerwyn Williams o **Adran y Gymraeg** yn feirniadaeth lenyddol gynhwysfawr o lenyddiaeth Gymraeg yn ymwneud â'r Ail Ryfel Byd. Mae llenyddiaeth ryfel Gymraeg yn faes ymchwil y mae'r Athro Williams wedi ei drwytho ei hun ynddo. Yn y gyfrol ymdrinnir â barddoniaeth a rhyddiaith a ysgrifennwyd yn ystod blynyddoedd y rhyfel, yn cynnwys profiadau uniongyrchol rhai a fu'n ymladd ac ymateb gwrthwynebwyr cydwybodol. Hefyd ystyrir y modd yr edrychwyd yn ôl ar ddigwyddiadau'r cyfnod cythryblus hwnnw mewn llenyddiaeth a ysgrifennwyd wedi'r rhyfel.

*“Ymchwil newydd a gwerthfawr ym
maes diwylliant a hanes Cymru.”*

...o safon genedlaethol a rhyngwladol

Canolfan Polymerau Uwch


Mae dyfodiad Yr Athro Tony Johnson i Fangor, sef ymchwilydd blaenllaw ym maes polymerau sydd â chysylltiadau agos â'r **Technium OpTIC**, wedi arwain at sefydlu **Canolfan Polymerau Uwch** (CPU) yn yr **Ysgol Gwybodeg**. Mae'r Athro Johnson yn arbenigo mewn addasu polymerau ar gyfer defnyddiau penodol trwy reoli cemeg polymeriad a'r dechnoleg adweithydd cysylltiedig a ddefnyddir i gynhyrchu deunyddiau.

Caiff gwaith CPU ei hyrwyddo gan grantiau ymchwil a enillwyd ar y cyd â'r Athro Martin Taylor. Cefnogir un project gwerth dros £1.7 miliwn gan ESPSRC/DTI/diwydiant ac mae'n cefnogi gwaith ar y cyd â **Phrifysgol Bath**. Atgyfnerthir hyn gan grantiau eraill o dros £600k gan y **Gronfa Ymelwa ar Wybodaeth**. Mae'r grantiau hyn wedi galluogi'r Ganolfan i sefydlu cyfleusterau adweithydd polymeriad ym Mangor ac ystafelloedd cymeriadaeth polymerau yn y Technium OpTIC.

Bydd y gwaith sylfaenol a wneir yn y Ganolfan yn hybu twf diwydiannau wedi eu seilio ar bolymerau yng Nghymru, yn cynnwys datblygu dull cynhyrchu cost isel ar gyfer lensys plastig o safon uchel ar gyfer cyfathrebu ac arddangosiadau optegol. Mae gwaith y CPU yn cyd-fynd â gweithgareddau'r Athro Shore yn Optoelectroneg, Yr Athro Taylor mewn Electroneg Polymerau a'r datblygiadau labordy-ar-sglodyn a arweinir gan Yr Athro Ron Pethig a Dr Julian Burt.

Iechyd Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd

Mae pum rhaglen ymchwil fawr ryng-gysylltiedig yn ymwneud ag ansawdd dŵr mewn moroedd silff yn cael eu cynnal gan yr **Ysgol Gwyddorau Eigion**. NERC a'r **Undeb Ewropeaidd** sy'n eu cyllido. Mae'r rhaglenni hyn yn defnyddio Môr Iwerddon a'r Môr Celtaidd fel meysydd arbrofi gydag astudiaethau arsylwi a modelu ar y prosesau bioffisegol sy'n pennu ansawdd dŵr mewn moroedd silff, a thrwy hynny'r ffordd mae ecosystemau'n gweithredu. Mae'r technolegau diweddaraf, sydd ar fwrdd y Llong Ymchwil Prince Madog, yn rhoi data



newydd ar dyrfedd, mater mewn daliant, maethynnau a ffytoplancn mewn perthynas â strwythur colofn ddŵr a'r cylch tymhorol. Mae'r Athro John Simpson a Dr Tom Rippeth yn rhoi golwg newydd ar y modd y mae tyrfedd yn rheoli deinameg ffytoplancn a chynhyrchiant sylfaenol; mae Dr Sarah Jones a Dr Colin Jago yn cyfrannu at ddealltwriaeth newydd o ronynnau mewn daliant mewn perthynas â thyrfedd, plancton a maethynnau; ac mae Dr Gay Mitchelson-Jacob a Dr David Bowers yn defnyddio delweddau o loerennau i ddadansoddi nodweddion dŵr o bellter. I gynnal yr astudiaethau hyn mae angen gwneud mesuriadau trylwyr yr un pryd o amrywiaeth eang o baramedrau ffisegol, cemegol a biolegol yr un rhan o ddŵr ac mae gan yr Ysgol Gwyddorau Eigion arbenigedd a gallu digymar yn hyn o beth ym Mhrydain. Bydd modelau'n deillio o'r astudiaethau

hyn yn hanfodol ar gyfer rhagfynegi ansawdd dŵr ac ymateb ecosystemau i newid hinsawdd ac anthropomorffaid mewn moroedd silff y mae'r newidiadau hyn yn arbennig o dueddol o effeithio arnynt.

*Crynodiad mater mewn daliant
ym Môr Iwerddon a'r Môr
Celtaidd o lun lloeren SeaWiFS*

Chwarae ein rhan yn Y GYMUNED



Plant yn ecbdynnu DNA o dan gyfarwyddyd Yr Atbro Deri Tomos (Gwyddorau Biolegol), yn yr Arddangosfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn yr Eisteddfod

Eisteddfod Eryri a'r Cylch

Gyda'r **Eisteddfod Genedlaethol** yn cael ei chynnal ar gyrion Bangor, roedd y Brifysgol yn awyddus i gymryd rhan lawn yn y gweithgareddau'r haf hwn.

Roedd y Brifysgol yn hynod falch o noddi'r Arddangosfa Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar y Maes, gyda'i phartneriaid **Serco**. Cymerodd staff o'r Brifysgol ran yn yr Arddangosfa hefyd.

Ar y Maes, roedd yr **Hysbys** yn ferw o weithgaredd (mwy o fanylion gyferbyn). Roedd ymwelwyr â phabell y Brifysgol wrth eu bodd gydag arddangosfa helaeth o hen luniau o fyfyrwyr a thynnodd rhaglen lawn o ddigwyddiadau sylw at wahanol gynlluniau'r Brifysgol. Trwy stondin **Cymdeithas Meddalwedd Cymraeg** hyrwyddwyd meddalwedd a

chyfleusterau Technoleg Gwybodaeth yn y Gymraeg a chafwyd rhaglen sylweddol o ddigwyddiadau yno. Roedd y stondin hon yn cynrychioli technoleg iaith a datblygu TG yng **Nghanolfan Bedwyr**, yr **Adran Dysgu Gydol Oes** a'r **Gwasanaethau Gwybodaeth**, yn ogystal â chwmnïau meddalwedd preifat a sefydliadau meddalwedd gwirfoddol.

Bu'r Eisteddfod yn gyfle hefyd i gynnal pump 'Brecwast Busnes'. Roedd pob un wedi ei anelu at wahanol rannau o'r sector busnes, gan dynnu sylw at y cyfleusterau a'r arbenigedd sydd gan y Brifysgol i'w cynnig.

Traddodwyd darlithoedd niferus gan academyddion o'r Brifysgol fel siaradwyr gwadd i gymdeithasau a sefydliadau. Hefyd darparodd Croeso-Welcome Bangor lety i rai cannoedd o westeion yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol.

"Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal ar gyrion Bangor, roedd y Brifysgol yn awyddus i gymryd rhan lawn yn y gweithgareddau'r haf hwn."

...agor ein drysiau a mynd â neges addysg allan i'r gymuned

Ar y lôn

Mae'r **Hysbys**, y bws dysgu cymunedol, yn gynllun newydd cyffrous rhwng **Adran Dysgu Gydol Oes** y Brifysgol, y **BBC** a **Bwrdd yr Iaith Gymraeg**. Mae'r bws yn cynnwys cyfrifiaduron a stiwdio ddarlledu, ac mae tîm yn dod â thechnoleg, dysgu a chyfleoedd darlledu i gymunedau ar draws gogledd Cymru. Maent y ymweld â digwyddiadau, trefi a chymunedau ar hyd a lled y rhanbarth, gan gyflwyno cyrsiau byrion, sesiynau blasu, a chyfle i bobl o bob oed ymgyswrtu â'r we. Mae'r tîm yn addasu eu gweithgareddau ar gyfer pob cynulleidfa ac yn rhoi cyngor ar yr amrywiaeth o gyrsiau a gynigir gan yr Adran Dysgu Gydol Oes a'r cyrsiau mwyaf addas ar gyfer yr unigolyn.

Mae'r Hysbys yn rhan allweddol bwysig o strategaeth gyffredinol y Brifysgol i ddarparu dysgu hygyrch yn ein cymunedau ac yn dangos ymroddiad y Brifysgol i fynd ag addysg uwch allan i'r gymuned.

“Mae'r Hysbys yn rhan allweddol bwysig o strategaeth gyffredinol y Brifysgol i ddarparu dysgu hygyrch...”




*Hysbys, y bws
dysgu cymunedol*

Myfyrwyr yn estyn allan

Fel partner arweiniol yn y project *Ymgeisio'n Uwch, Ymgeisio'n Ehangach*, mae'r Brifysgol yn arloesi â ffyrdd newydd o gynyddu nifer y bobl sy'n dod i addysg uwch i astudio cyrsiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Gwneir hyn trwy ddatblygu llwybrau newydd i addysg uwch a chreu galw mewn ysgolion. Mae sesiynau mentora dan arweiniad myfyrwyr, gyda phlant o bob oed, yn ysgolion ardaloedd 'Cymunedau'n Gyntaf' yn annog disgyblion i ystyried dod i addysg uwch.


Fe wnaeth yr Ysgol Haf gyntaf, a oedd yn rhan o'r un project, roi cyfle i ddisgyblion chweched dosbarth flasgu bywyd Prifysgol am dridiau. Bu'r 'myfyrwyr' yn aros mewn neuaddau preswyl ac yn mynychu 'darlithoedd bach'. Yn y cyfamser, mae'r **Rbaglen Dawn a Chyfle** hefyd yn mynd â myfyrwyr allan i ysgolion i rannu eu profiadau ac yn dod â disgyblion i'r Brifysgol i 'ddilyn' myfyrwyr am ddiwrnod.

Chwarae ein rhan yn Y GYMUNED



Prototeip
sglodyn
DNA

Catwyd y delweddau trwy garedigrwydd Accelrys Inc.



Rhith ddelwedd o fiselâu a ffurfir wrth dosbarthu cyffuriau. Mae miselâu'n ffurfio pan mae brasterau ac olewau'n toddir meun dŵr. Mae ganddynt rannau sy'n hoff o ddŵr (hydroffilig) a rhannau sy'n casáu dŵr (hydroffobig). Yn y rhith ddelwedd hon gwelir beth sy'n digwydd pan mae cyffur (sydd mewn capsïwl) yn toddi meun dŵr. Mae'r cyffur (sy'n wyn ei liw) fel pe bai'n hoffi bod yn y rhan o'r capsïwl sy'n hoffi dŵr. Bydd hynny o gymorth pan fydd yn toddi yn y stumog.

*“Mae'r Ganolfan Modelu
Moleciwlaid a Delweddu yn
galluogi'r Adran i gynnal
ymchwil o safon ryngwladol...”*

Delweddu'r 'rhith' fyd

Mae canolfan ymchwil flaengar, sy'n ymchwilio i faes 'cwantwm' a rhith gemeg, wedi cael ei sefydlu yn yr **Adran Cemeg** ym Mangor. Dim ond gan ddwy adran cemeg ym Mhrydain y mae'r cyfleusterau hyn.

Mae'r **Ganolfan Modelu Moleciwlaid a Delweddu** yn galluogi'r Adran i gynnal ymchwil o safon ryngwladol a darparu adnoddau arbenigol i fusnesau'n ymwneud â gwyddoniaeth deunyddiau a chynhyrchwyr deunyddiau uwch dechnoleg arbenigol eraill yn y rhanbarth. Sefydlwyd y Ganolfan trwy gyllid gwerth £1.4 M o Gronfa Amcan 1 Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd ac mae'n bartneriaeth â **Gaia Technologies Plc, Accelrys Plc, Awdurdod Datblygu Cymru, Ymddiriedolaeth Goffa Syr William Ramsay, WEFO a Fakespace.**

Wrth ddefnyddio'r cyfleusterau hyn bydd cemegwyr o'r Brifysgol a diwydiant yn cael gwell dealltwriaeth o nodweddion a pherfformiad gwahanol ddeunyddiau, heb orfod arbrofi â'r deunyddiau eu hunain mewn gwirionedd. Mae'r agwedd 'rithwir' hon yn galluogi'r defnyddiwr i fynd i mewn i foleciwlau, a rhyngddynt, mewn rhith fyd cwantwm trwy dechneg a elwir yn 'drochi data'.

...rhannu gwybodaeth er budd yr economi

Gweledigaeth newydd i gwmni

Mae Partneriaeth Drosgrwyddo Gwybodaeth lwyddiannus yn **Ysgol Gwybodeg** y Brifysgol wedi galluogi cwmni lleol i ddatblygu cynnyrch newydd a symud i mewn i farchnadoedd newydd.

Elusen yw **Vision Support** sy'n rhoi cymorth i bobl yn rhanbarth Gogledd Cymru a Chaer sydd â nam ar eu golwg. Mae VST (Vision Support Trading), eu cangen fasnachol, yn cynnig gwasanaethau trawsgrifio masnachol (i brint bras, Braille a sain) sy'n galluogi sefydliadau i gydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Caiff unrhyw elw ei gyfamodi'n ôl i'r elusen.

Roedd y Bartneriaeth ddwy flynedd a orffennodd yn ddiweddar yn cynnwys defnyddio arbenigedd y Brifysgol i ddatblygu systemau Technoleg Gwybodaeth blaengar sy'n awtomeiddio'r gwasanaethau trawsgrifio gan arbed llawer iawn o amser. Mae VST wedi ennill cwsmeriaid newydd, megis MBNA a M&S Money, ac maent yn mynd i mewn i farchnadoedd newydd.

Mae'r datblygiadau yn VST yn sicrhau yn gwellu ansawdd trawsgrifiadau a thrwy hynny safon y gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid sydd â nam ar eu golwg. Mae gweithlu'r cwmni wedi dyblu ac mae wedi symud i adeiladau newydd helaethach.

"Mae'r Bartneriaeth wedi cyfrannu'n sylweddol at wella ein proffidioldeb a'n gwasanaeth i gwsmeriaid," meddai Wendy Wedmore, Prif Weithredwr VST

Cefnogi cwmnïau bach

Mae hanner cant o ymchwilwyr ôl-radd wedi cael eu recriwtio i weithio ar ymchwil a datblygu gyda chwmnïau lleol, bychain. Cawsant eu hyfforddi mewn sgiliau arbennig ar lefel uwch ac maent yn gweithio i gael graddau PhD. Mae hyn yn dilyn cais llwyddiannus gan raglen Amcan Un Gorllewin Cymru a'r Cymoedd am arian o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Mae'r project yn paratoi unigolion i gael gyrfaoedd fel ymchwilwyr ac yn cryfhau seiliau ymchwil a thechnolegol y rhanbarth yr un pryd.

Mae'r project wedi datblygu partneriaethau rhwng y **Brifysgol** a busnesau ym maes nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, biotechnoleg, cemeg, magu pysgod,

meddalwedd, gwasanaethau proffesiynol ac iechyd, a thwristiaeth yng ngogledd orllewin Cymru. Mae mwyafrif y busnesau hyn yn cyflogi llai na deg o bobl. Caiff yr hyfforddiant a roddir ei addasu a'i ddatblygu mewn partneriaeth â busnesau ac mae'n rhoi cyfleoedd rhagorol i leoli ymchwilwyr mewn diwydiant ac i ddod ag Addysg Uwch a busnesau at ei gilydd gan hybu rhagolygon recriwtio.

Heb y sgiliau a ddatblygir trwy'r project, ni fyddai'r rhanbarth yn gallu cystadlu â rhanbarthau eraill mwy ffyniannus sy'n cyfrannu mwy o'u cyfoeth tuag at ymchwil a datblygu.



Mae Andrew Norton (ar y dde) yn cydweithio â chwmni o Fangor, **Plant Fibre Technology Ltd**, ar ei broject ymchwil. Yma fe'i gwelir gyda Gary Newman o'r cwmni.

Uchafbwyntiau 2004-2005

Dr Simon Creer yn cael ei longyfarch ar ei wobwr gan Dr Sue Assinder o'r Ysgol Gwyddorau Biolegol



Medi

Cofrestrodd cyfanswm o 9,739 o fyfyrwyr yn y Brifysgol yn 2004/05. O'r rhain, mae oddeutu 8,200 yn israddedigion (yn cynnwys myfyrwyr Tystysgrif a Diploma) a 1,600 yn ôl-raddedigion.

Derbyniodd Dr Simon Creer o'r **Ysgol Gwyddorau Biolegol** Wobr Joseph B. Slowinski am 2004 fel prif awdur y papur mwyaf allweddol ar systemateg nadroedd – *Excellence in Venomous Snake Systematics* – a gyhoeddwyd led led y byd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyflwynir y Wobr gan Fwrdd Cyfarwyddwyr The Center for North American Herpetology.



Andrew Davies AC yn agor canolfan y Brifysgol yn Llanelwy

Hydref

Agorodd **Andrew Davies AC**, Gweinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd, ganolfan y Brifysgol yn Llanelwy gan ddisgrifio'r Brifysgol fel y 'perl yn y goron' o ran ei chyfraniad i ddatblygiad economaidd yn y rhanbarth.

Tachwedd

Traddododd **Syr John Krebs**, Cadeirydd yr **Asiantaeth Safonau Bwyd**, ddarlith gyda'r teitl *Risk: Food, Fact & Fantasy* ar achlysur lansio **Sefydliad Cymru ar gyfer Bwyd, Bwyta'n Iach a Byw'n Heini (ifanc)** yn y Brifysgol.



Sir John Krebs yn y canol gyda Chyfarwyddwr ifanc, Yr Athro Gareth Edwards-Jones, a'r Dirprwy Gyfarwyddwr, Dr Clare Paisley, ar achlysur lansio ifanc

“Disgrifiwyd y Brifysgol fel ‘y perl yn y goron’ gan Andrew Davies AC, o ran ei chyfraniad i ddatblygiad economaidd yn y rhanbarth

*Y cartref i blant
amddifad yn Sri Lanka*



Rhagfyr

Enillodd Dr Judy Hutchings, o **Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru** yn yr **Ysgol Seicoleg**, Wobr 'Merch sy'n Addysgydd', yng **Ngwobrau Merch y Flwyddyn Cymru** a drefnir gan y *Western Mail*. Daeth Yr Athro Sian Hope, **Gwybodeg**, yn ail am y Wobr 'Merch mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg'.

Derbyniodd Yr Athro Howard Davis (**Gwyddorau Cymdeithas**) Ddoethuriaeth er Anrhydedd gan **Brifysgol Talaith Kazan**.

Cyhoeddwyd ymchwil gan y biolegydd esblygiad, Wolfgang Wüster, a myfyrwyr blwyddyn olaf yn yr **Ysgol Gwyddorau Biolegol**, gan y **Gymdeithas Frenhinol**. Gan ddefnyddio modelau o nadroedd plastisin, fe wnaethant brofi nad yw lliwiau llachar yn angenrheidiol fel arwyddion rhybudd mewn 'ysglyfaeth' gwenwynig.

Ionawr

Mae'r ddarpariaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd a meddygaeth yn parhau i ddatblygu gyda lansio **Ysgol Glinigol Gogledd Cymru** mewn partneriaeth â **Phrifysgol Caerdydd, NEWI** a'r **Ymddiriedolaethau GIG** yng ngogledd Cymru.

Chwefror

Agorwyd swyddfa ranbarthol IT Wales yn yr **Ysgol Gwybodeg**. Mae **IT Wales** yn gweithredu fel brocer rhwng cwmnïau ac arbenigedd academiaidd ym maes technoleg gwybodaeth. Mae IT Wales hefyd yn darparu'r wybodaeth a'r datblygiadau diweddaraf mewn TG i fusnesau.



*Yr Athro
Howard
Davis*

Mawrth

Daeth Ben Deakin yn **Arweinydd Cyfoed y Flwyddyn** cyntaf y Brifysgol. Derbyniodd yr anrhydedd yn ystod noson Cyflwyno Tystysgrifau i Arweinwyr Cyfoed, sy'n cydnabod y cyfraniad a wneir gan Arweinwyr Cyfoed i fywyd myfyrwyr ym Mangor.



*Dr Judy Hutchings (dde)
a'r Athro Sian Hope*

Ebrill

Dri mis ar ôl y tsunami yn Asia, penderfynodd myfyrwyr o gampws Wrecsam yr **Ysgol Astudiaethau Nyrso, Bydwreigiaeth ac Iechyd**, ymateb i anghenion enfawr Apêl y Tsunami. Fe wnaeth arian a gasglwyd yn lleol alluogi pedwar o fyfyrwyr Gradd Nyrso a'u tiwtor i gynorthwyo ag ailadeiladu cartref i blant amddifaid yn Sri Lanka.

Enillodd y **Ganolfan Biogyfansoddion** grant o £550k o'r Gronfa Datblygu Gwybodaeth i sefydlu canolfan trosglwyddo technoleg i ymwneud â diwydiant. Bydd y Ganolfan newydd yn canolbwyntio ar ddatblygu deunyddiau effaith isel.

Uchafbwyntiau 2004-2005



Catrin
Finch

Mai

Cafodd cyfansoddiad cerddorfaol, *Reservoirs*, gan Guto Pryderi Puw, darlithydd yn yr **Adran Cerddoriaeth**, ei enwebu ar gyfer Gwobrau Cerddoriaeth 2005 y Royal Philharmonic.

Mehefin

Cyflwynwyd Gwobr Gwyn Alf Williams **BAFTA Cymru** am y gyfres ddogfennol *Cymry Rhyfel Cartref America* a ddarlledwyd ar S4C. Roedd y gyfres, a sgriptiwyd ac a gyflwynwyd gan Dr Jerry Hunter (**Adran y Gymraeg**), wedi ei seilio ar ei ymchwil a'i lyfr ar hanes y Cymry yn Rhyfel Cartref America.

Dr Jerry Hunter ac Ifor ap Glyn o gwmni teledu, Cwmni Da, yn derbyn gwobr BAFTA Cymru



Gwahoddwyd Jamie MacDonald, myfyriwr graddedig o'r **Ysgol Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer**, i 55ed cyfarfod cyn-enillwyr gwobr Nobel yn Lindau, Yr Almaen. Roedd Jamie, sy'n astudio ar gyfer PhD mewn Gwyddor Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer, yn un o oddeutu 500 o fyfyrwyr PhD ac ymchwilwyr ifainc o bob rhan o'r byd a ddewiswyd i fynd i'r achlysur.

"Mae'n un o ddim ond tua 500 o fyfyrwyr PhD ac ymchwilwyr ifanc led led y byd a ddewiswyd i fynd i'r achlysur."

Gorffennaf

Yn y seremonïau graddio cyflwynwyd Cymrodoriaeth er Anrhydedd i **Ms Catrin Finch**, Telynores, **Yr Athro Herbert Wilson**, Ffisegydd, **Mr Ieuan Wyn Jones AC**, Gwleidydd, **Ms Hafina Clwyd**, Newyddiadurwraig, **Mr Elfed Roberts**, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol, **Mr Medwyn Williams**, Garddwr, **Yr Athro Roy Evans**, cyn Is-Ganghellor, **Y Parch. John Gwilym Jones**, Gweinidog a bardd, **Ms Olwen Williams OBE**, Meddyg Ymgynghorol yn Ysbytai Maelor Wrecsam a Glan Clwyd, **Y Dirprwy Lyngesydd Alastair Ross CB,CBE**, Clerc Anrhydeddus Gwmni'r Brethynwyr, **Mr Carwyn Jones AC**, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, a **Mr Richard Parry Jones**, Is-lywydd Grŵp, Ford Motor Co.

Ymunodd **Syr Peter Davis** â Bwrdd Ymgynghorol yr **Ysgol Busnes a Datblygiad Rhanbarthol**. Mae ef yn gyfarwyddwr ar brif fwrdd **UBS AG** o Zurich, banc mwyaf Ewrop yn ôl maint asedau, ac yn gyn Brif Weithredwr tri o brif gwmnïau'r FTSE.

Awst

Enillodd un o fyfyrwyr yr **Adran Dysgu Gydol Oes**, Sue Massey of Benmaenmawr, wobwr bwysig Dysgwr Cymraeg y Flwyddyn. Dyfarnwyd Gwobr Elvet a Mair Elvet Thomas i Elwyn Hughes, Uwch Gydlynnydd Cymraeg i Oedolion yn yr Adran, am ei ragoriaeth fel tiwtor ac am ysbrydoli dysgwyr.